Datblygu Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Partneriaeth Pensiynau Cymru

William Marshall, Partner

27 Mawrth 2019

Hymans Robertson LLP is authorised and regulated
by the Financial Conduct Authority

HYMANS ROBERTSON

Rhaglen

- Adborth o'r holiadur
- Egwyddorion polisi BC drafft
- Cymharu polisïau pleidleisio
- Camau nesaf

Adborth o'r holiadur

Yr Holiadur: Trosolwg

- Cyflwynwyd holiadur i aelodau'r GS a'r CLl.
- Diben yr holiadur oedd ceisio dod i ddeall y farn a'r safbwyntiau ar faterion BC.
- Cafwyd 15 ymateb, wedi'u rhannu'n lled gyfartal rhwng aelodau'r CLl a'r GS.
- Gweler yr ymatebion llawn yn Atodiad 1.
- Mae'r sleidiau a ganlyn yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd a'r meysydd lle mae consensws/anghytundeb.
- Rydym wedi cyfieithu'r canfyddiadau hyn i bolisi drafft cychwynnol ac awgrymiadau am gamau gweithredu ar gyfer y Pŵl.

Safbwynt y Pŵl

- Lled-gytundeb ar yr hyn a ganlyn:
  - Dylai'r Pŵl arddangos arferion gorau ar BC [25] a darparu arweinyddiaeth wrth gynorthwyo cronfeydd i fynd i'r afael â risgiau hinsawdd [15]
  - Mae angen i'r Pŵl wneud mwy na'r gofynion rheolaethol lleiaf [16]
  - Byddai'r Cronfeydd yn croesawu cydweithio, ond nid gyda chronfeydd CPLIL neu Gronfeydd Pŵl eraill o anghenrhaid, h.y. dylai'r Pŵl chwilio am y partner mwyaf priodol [20, 24]

- Cytundeb cryf ar yr hyn a ganlyn:
  - Ffafrir ymgysylltu yn hytrach na dadfuddsoddiad [19]

- Dim cytundeb clir ar yr hyn a ganlyn:
  - Gorfodi polisi eithrio ar draws cynigion y gronfa Pŵl [10, 14]

Noder bod y rhifau mewn [] yn cynrychioli'r cwestiynau perthnasol yn yr holiadur. Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion

Goblygiadau a dealltwriaeth

- Cytundeb cryf ar yr hyn a ganlyn:
  - Mae'n ofyniad gan y pŵl i sicrhau yr eir i'r afael â materion BC, yn hytrach na dibynnu ar y rheolwyr i wneud hyn [17, 23, 29]
  - Dylai'r Pŵl sicrhau bod rheolwyr yn integreiddio ystyriaethau ESG mewn prosesau yn uniongyrchol [23]

- Lled-gytundeb bod materion BC yn cael eu deall ar lefel y Gronfa ond llai o gytundeb bod hyn yr un fath ar lefel y Pŵl
  - Felly, mae angen eglurder ar swyddogaeth y Pŵl [1, 2]

- Dim cytundeb ar yr hyn a ganlyn:
  - Mae'r rheolwyr mewn gwell sefyllfa i ystyried ffactorau ESG mewn penderfyniadau buddsoddi [21]

- Lled-ddisgwyliad y dylai'r Pŵl a'r Cronfeydd fedru troi at eu darparwyr gwasanaeth am gefnogaeth ar faterion BC [22]

Cynigion o ran Rheolwyr a Mandad

- Consensws fel a ganlyn:
  - Mae gan Link a Russell rwymedigaeth i'r Pŵl [27]

- Dim cytundeb clir ar yr hyn a ganlyn:
  - Blaenoriaethu mynediad at reolwyr ESG arbenigol [9]
  - Darparu mynediad at strategaethau effaith [11]

- Cytundeb cryf y bydd cwmnïau ag arferion busnes cynaliadwy yn perfformio'n well [18]
  - Ystyried cynigion mandad neu fonitro?

Polisi pleidleisio

- Lled-gytundeb ar yr hyn a ganlyn:
  - Y Pŵl ddylai benderfynu ar y polisi pleidleisio [12]

- Dim consensws ar yr hyn a ganlyn:
  - Dylid caniatáu i reolwyr fabwysiadu gwahanol safbwyntiau wrth bleidleisio ar yr un penderfyniad [8]

Datgelu/Monitro

- Cytundeb cryf ar yr hyn a ganlyn:
  - Mae angen adrodd ar ffactorau ESG a pherfformiad ariannol [3]
  - Dylai bod rheidrwydd ar reolwyr i ddatgelu gwybodaeth ESG ar gronfeydd [4]
  - Dylid ail-asesu cymwysterau rheolwyr bob blwyddyn [7, 26]
  - Dylai cronfeydd ddiffinio eu gofynion monitro ar gyfer y Pŵl a dylai'r Pŵl sicrhau eu bod yn cael eu bodloni [28]
  - Dylai'r Pŵl ddatgelu ei weithgareddau BC ei hun [5]

Egwyddorion drafft i'w hymgorffori yn y polisi BC

I grynhoi: Materion i'w cynnwys yn eich polisi

Maes	Materion i roi sylw iddynt
Polisi/Llywodraethu	Credoau Addysg Dadfuddsoddiad Ymgysylltiad y Gronfa Dull adolygu'r polisi Dirprwyaeth
Strategaeth/Strwythur	Risg hinsawdd Dull ymdrin â gwahanol ddosbarthiadau o asedau
Gweithredu	Dull dewis rheolwr Ffioedd/costau a thryloywder
Stiwardiaeth	Polisïau pleidleisio a'r dull ymdrin â phleidleisio Ymgysylltu â chwmnïau Cydweithio Cyfreitha
Monitro	Gwybodaeth/gofynion adrodd trydydd parti Dull adolygu cydymffurfiaeth â pholisi Datgelu/tryloywder

I grynhoi: Nodau wrth ddatblygu polisi BC ar gyfer PPC

I ddatblygu polisi BC, awgrymir y meini prawf a ganlyn:

- **Clir** - Dylai'r polisi fod yn ddiamwys, yn enwedig o dan graffu allanol.
- **Cymesur** - Dylai'r polisi adlewyrchu lleoliad y Gronfa a PPC ar eu siwrne BC. Nid oes angen ceisio mynd yn Arweinydd dros nos.
- **Cyson** - Dylai'r polisi adlewyrchu'r penderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn barod yn PPC a, chyhyd ag y bo'n bosib, yn y Cronfeydd.
- **Gweithredadwy** - Dylid bod modd rhoi'r polisi ar waith gan ddefnyddio strwythur ac adnoddau'r Pŵl.
- **Adlewyrchu arferion gorau** - Dylai'r polisi ystyried y gofynion rheolaethol ac arfer gorau cyfredol ond bod yn destun adolygiad a newid yn y dyfodol.

Polisi BC Drafft: Uchelgais/amcanion

- Mae gan PPC uchelgais i arddangos arweinyddiaeth ar ymarferion BC o ran rheoli asedau ar gyfer ac ar ran y Cronfeydd sy'n aelodau o'r Bartneriaeth
  - Dylai roi diffiniad clir o'r uchelgais hon a'r amserlen ar ei chyfer
  - Mae'n bosib y bydd hyn yn effeithio ar ofynion adnoddau'r Pŵl ac mae angen cydbwyso'r ymrwymiadau yn erbyn yr adnoddau.

- Y pŵl i ddatblyg cynllun busnes BC i'w ymgorffori yng ngweithrediad y polisi
  - Asesiad o gynnydd yn erbyn y cynllun busnes yn cael ei oruchwylio gan y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r GS

- Ail-asesiad blynyddol o anghenion a gofynion y Gronfa o ran BC er mwyn hysbysu esblygiad polisi
  - Polisi i gael ei arwain gan y Cronfeydd sy'n aelodau ac ar y cyflymder y maent hwy'n dymuno

- Themâu allweddol i fod yn amlwg yn y polisi yw integreiddiad, stiwardiaeth a datgeliad.

Polisi BC Drafft: Credoau

Casglwyd y credoau a ganlyn o'r ymatebion a gafwyd i'r holiaduron:

- Mae'n rhaid i'r Pŵl arwain ar yr ymddygiadau BC yr ydym yn dymuno eu gweld gan ein holl fudd-ddeiliaid.
- Mae integreiddio ffactorau ESG mewn prosesau buddsoddi yn rhagofyniad ar gyfer unrhyw strategaeth o ystyried y posibilrwydd o golled ariannol.
- Rydym fwyaf effeithiol fel buddsoddwr, yn ymgysylltu am newid o'r tu mewn, yn hytrach nag fel ymgyrchwr, sy'n lobïo am newid o'r tu allan.
- Byddwn yn cael yr effaith fwyaf ar ymddygiadau corfforaethol pan fyddwn yn siarad ag un llais cytûn.
- Mae angen i ddata cynhwysfawr gael ei ddatgelu er mwyn cael trosolwg effeithiol o arferion BC.

Polisi BC Drafft: Strategaeth

- Bydd y Pŵl yn anelu i lansio cynnyrch sy'n bodloni gofynion y Gronfa
  - Gofynion i ystyried a blaenoriaethu strategaethau ar y themâu effaith/cynaliadwyedd yn ôl y galw
    - Nod cynnar fyddai adnabod a dod i gytundeb ar dir cyffredin ymysg cronfeydd er mwyn arddangos arweinyddiaeth?
  - I ba raddau y dylid pwysleisio cynaliadwyedd mewn lansiadau strategol i'r dyfodol?

- Bydd y pŵl yn cefnogi cronfeydd i ddatblygu eu dull o reoli'r risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd
  - Y pŵl i hwyluso mesuriad y risg carbon fel bod modd i Gronfeydd osod meincnodau
  - Ymgynghori ymhellach ar yr angen i ddatblygu polisi penodol i'r Pŵl sy'n ymwneud â'r risg i'r hinsawdd

Polisi BC Drafft: Integreiddio

- Gofyniad ar Russell/Link i arddangos mai'r rheolwyr gorau sydd wedi'u penodi i'r Pŵl
  - Angen bod yn fwy na chyfeiriad at y sgoriau PRI yn unig
  - Angen arddangos a thystiolaethu bod ffactorau ESG wedi'u hintegreiddio mewn prosesau
  - Fframwaith asesu i'w gytuno

- Ymgysylltu'n barhaus â Russell/Link ar y broses i'w dilyn i ddarparu tryloywder i Gronfeydd

Polisi BC Drafft: Stiwardiaeth

- Pŵl i weithio tuag at fabwysiadu polisi pleidleisio sengl i'w weithredu ar draws pob daliad ecwiti
  - Cytundeb ar y safonau pleidleisio i'w defnyddio
  - Defnyddio polisi PLSA fel sail, neu fel dewis amgen
  - Modd esblygu i ystyried materion mwy penodol yn y man
- Pŵl i archwilio'r defnydd o un asiant i weithredu'r polisi pleidleisio:
  - Angen trafodaeth bellach ar bwy y gallai hwn fod a sut i hwyluso hyn
  - Ystyriaethau ymarferol ar weithrediad i'w harchwilio
  - Cyfuno â gofynion adrodd ar bleidleisio i sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn ôl yr angen
- Pŵl i adrodd i'r Cronfeydd ar weithrediad y polisi pleidleisio, bob chwarter
- Ymgysylltu i'w ddirprwyo i reolwyr unigol yn y lle cyntaf, ond gweithio tuag at ddull cyffredin os oes modd
  - Gall cefnogaeth i LAPFF gynnig peth tir cyffredin/parhad
  - Gellid ei ystyried ar y cyd â'r asiant pleidleisio
  - Sut fydd llwyddiannau yn cael eu mesur a'u hadrodd?

Polisi BC Drafft: Monitro

- Bydd disgwyl i reolwyr adrodd ar nodweddion ESG eu portffolios bob chwarter:
  - Nodweddion i'w pennu gyda mewnbwn gan Gronfeydd
  - Cysondeb mewn metricsau ar draws rheolwyr i'w sicrhau
  - Y gallu i fesur effaith i'w gynnwys?

- Dylid (ail)asesu cymwysterau Rheolwyr BC bob blwyddyn.
  - Gofyniad am "adroddiad cynaliadwyedd" blynyddol gan Link/Russell - cynnwys i'w gytuno
  - Angen cynnwys mwy o ffactorau ansoddol, a'u bod yn cael eu diffinio a'u hadrodd
  - Sicrhau bod yr adrodd yn seiliedig ar dystiolaeth

- Craffu parhaus gan y Pŵl
  - Arddangos ymrwymiad parhaus i arferion BC a'r heriau i'w hystyried
  - Sut fyddwn ni'n tynnu sylw at faterion? Dod i gytundeb ar y dull â Russell/Link

Polisi BC Drafft: Materion eraill

- Pŵl i asesu cydymffurfiaeth â'r polisi BC bob blwyddyn:
  - Datgelu'r polisi a'r adroddiad cydymffurfio yn gyhoeddus
  - Adolygu'r polisi bob blwyddyn i sicrhau bod y dyhead am arweinyddiaeth yn cael ei fwrw ymlaen

- Cefnogaeth gan y pŵl i gyrff allanol:
  - LAPFF - priodol o ystyried ffocws CPLlL a'r aelodaeth ymysg Cronfeydd
  - UK Stewardship Code - ystyried ar ôl yr ymgynghoriad
  - PRI - ystyried yn y man ond ei gydbwyso yn erbyn y rhwymedigaethau adrodd

- Addysg:
  - Ymrwymiad y pŵl i gefnogi addysgu Cronfeydd am BC.
  - Hwyluso diwrnod hyfforddi BC blynyddol i Gronfeydd?
  - Y gallu i drosoli cyd-ddealltwriaeth a chael cysondeb mewn dealltwriaeth

- Gofynion am ddatgelu costau yn unol â'r SAB Code of Transparency

Polisi pleidleisio

I grynhoi: Strwythur gweithrediad y polisi pleidleisio



Cymharu'r polisïau a ddewisiwyd (1)

Darparwr	Polisi Cydnabyddiaeth
PLSA	Pleidleisio yn erbyn polisi cydnabyddiaeth os yw'r polisi yn methu â bodloni egwyddorion PLSA Pleidleisio yn erbyn Cadeirydd pwyllgor cydnabyddiaeth/Cadeirydd y bwrdd os yw'r ymgysylltiad yn methu â gwella'r polisi
BlackRock	Meddu ar ganllawiau a chredoau pleidleisio manwl ac yn cefnogi egwyddorion PLSA yn gyffredinol
Russell	Pleidleisio yn erbyn cynigion i gymeradwyo polisïau neu raglenni cydnabyddiaeth os yw'r cynlluniau newydd yn caniatáu ailbrofi meini prawf perfformiad dros gyfnod estynedig o amser, os na fodlonwyd y meini prawf perfformio gwreiddiol yn ystod y cyfnod cychwynnol o amser.
Link	Pleidleisio yn erbyn: • lle nad yw'r strwythur cydnabyddiaeth yn caniatáu cyfranogiad ar draws y gweithlu. • lle nad oes ymrwymiad cyfalaf o ran y cyfranogwyr gweithredol. • lle nad yw'r enillion yn seiliedig ar dargedau perfformiad, neu lle nad yw'r targedau perfformiad yn adlewyrchu perfformiad o'i gymharu â chystadleuwyr y cwmni, yn hytrach na ffactorau cyffredinol y farchnad. • lle mae'r cyfnod asesu perfformiad yn llai na 5 mlynedd

Casgliad: Peth consensws ar y dull, ond gosodir gwahanol feini prawf mewn polisïau a chanllawiau a allai gael eu dehongli yn wahanol.

Cymharu'r polisïau a ddewisiwyd (2)

Darparwr	Amrywiaeth ar y Bwrdd
PLSA	Pleidleisio yn erbyn R&A os nad yw'r datganiad amrywiaeth yn cael ei ddatgelu/os yw'n anfoddhaol Pleidleisio yn erbyn Cadeirydd/Cadeirydd y pwyllgor enwebu os nad yw amrywiaeth yn cael ei ystyried yn briodol gan y Bwrdd neu os nad oes cynnydd digonol wedi'i wneud
BlackRock	Cefnogi amrywiaeth ar y bwrdd; Yn pleidleisio yn erbyn enwebiad cadeirydd/cyfarwyddwyr os o'r gred nad yw'r cwmni wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i amrywiaeth ar lefel y bwrdd
Russell	Cefnogi amrywiaeth ar y bwrdd;
Link	• Dylid ystyried pleidleisio yn erbyn yr R&A os nad oes datganiad amrywiaeth wedi'i gynnwys neu os yw'n anfoddhaol. • Os nad oes tystiolaeth glir bod amrywiaeth yn cael ei ystyried gan y bwrdd, yna dylid ystyried pleidleisio yn erbyn y Cadeirydd neu Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau.

Casgliad: Consensws rhesymol ar y dull - polisïau PLSA a Link wedi alinio. Mae'r diffiniad o "anfoddhaol" yn agored i gael ei ddehongli. Gwahaniaethau o ran p'un a bleidleisir yn erbyn R/A neu'r Cadeirydd.

Cymharu'r polisïau a ddewisiwyd (3)

Darparwr	Cynaladwyedd
PLSA	Pleidleisio yn erbyn R&A neu ail-ethol Cadeirydd pan fo perthnasau budd-ddeiliaid allweddol yn cael eu hesgeluso. Pleidleisio yn erbyn ail-ethol y Cadeirydd neu gyfarwyddwyr allweddol eraill os, yn dilyn ymdrechion gan randdeiliaid i ymgysylltu ar newid Hinsawdd, bod y cwmni yn methu â darparu asesiad risg manwl ac ymateb ynghylch effaith newid hinsawdd ar eu busnes, ac ymgorffori arbenigedd priodol ar y bwrdd.
BlackRock	Yn gefnogol yn gyffredinol: Yn pleidleisio yn erbyn ail-ethol cyfarwyddwyr sy'n cael eu hystyried yn gyfrifol am achosi niwed i ddiddordebau rhanddeiliaid mewn perthynas â materion cymdeithasol ac amgylcheddol. Neu yn pleidleisio o blaid cynnig rhanddeiliad, lle mae'n ymddangos bod bygythiad sylweddol posib neu niwed wedi'i achosi i ddiddordebau rhanddeiliaid, yn sgil rheolaeth wael o faterion Cymdeithasol ac Economaidd.
Russell	Pleidleisio yn erbyn cynigion lle mae materion amgylcheddol a chymdeithasol mewn perygl o gael effaith negyddol ar werth rhanddeilad
Link	Pleidleisio yn erbyn adroddiad Blynyddol, lle nad yw'r risgiau amgylcheddol sylweddol mewn perthynas â gweithgareddau'r cwmni wedi'u datgelu neu eu hadrodd neu lle yr ystyrir bod yr adrodd yn wael neu'n annigonol.

Casgliad: Dim consensws clir ar y dull. Gellir pleidleisio yn erbyn y Cyfrifon, cyfarwyddwyr neu o blaid cynigion rhanddeiliaid. Mae datgeliad a'r effaith negyddol bosib ar werth yn themâu sy'n codi

Ystyriaethau

- Gallai mabwysiadu safon i'r diwydiant gynnig cam cyntaf rhesymol ac ni fydd yn amodol i unrhyw bolisi sy'n ymwneud yn benodol â'r rheolwr. Yn ogystal, mae'n rhoi aliniad â buddsoddwyr eraill.
- Gallai bod gofyn am ddull Cydymffurfio neu Egluro yn y lle cyntaf i adnabod y gwahaniaethau a allai godi tra'n gweithio tuag at weithredu polisi safonol.
- Cydnabod hefyd bod polisïau'n cael eu diweddaru yn gyfnodol. Mae dilyn un safon yn sicrhau cysondeb dros amser.
- Ymhen amser, gallai'r pŵl ystyried amrywiaethau i'r polisi sy'n ymwneud â materion penodol
- A ellir adlewyrchu canllawiau pleidleisio LAPFF yn y dull a fabwysiadir?

Camau nesaf

Camau nesaf

- Trafodaeth ar y materion a godwyd ar gyfer polisi BC drafft. Unrhyw beth amlwg yn codi?
- Ysgrifennu polisi BC drafft i'w ystyried gan y GS ar 11 Ebrill
  - Cylchredeg y polisi drafft i Gronfeydd er ymgynghoriad yn dilyn cytundeb y GS
  - Polisi BC terfynol i'w gyflwyno a'i gytuno gan y Cydbwyllgor Llywodraethu yn y cyfarfod ym mis Mehefin
- Trefnu cyfarfodydd gyda Link, Russell a BlackRock i ystyried y gofynion o ran pleidleisio a monitro
- Cynllun busnes drafft i bennu'r camau gweithredu dros y 12 mis nesaf er mwyn gweithredu'r polisi BC drafft
- Ystyried cynigion i gefnogi cydweithrediad â LAPFF a llofnodi'r FRC UK Stewardship Code (yn dilyn ymgynghoriad)
- Ystyried goblygiadau posib y cynllun busnes i'r gyllideb/hyfforddiant/adnoddau

Atodiad 1

Ymatebion i'r holiadur

Sgoriau'r holiadur (1)

	Anghytuno	Niwtral	Cytuno
1. Mae gan y Pwyllgor ddealltwriaeth dda ynghylch natur a phwysigrwydd materion buddsoddi cyfrifol gan eu bod yn effeithio ar ei Gronfa ei hun.	0	5	10
2. Mae gan y Pwyllgor ddealltwriaeth dda ynghylch natur a phwysigrwydd materion buddsoddi cyfrifol gan eu bod yn effeithio ar y Pŵl.	2	5	8
3. Bydd adrodd mwy ar ffactorau ESG, ynghyd â pherfformiad ariannol, yn rhoi gwell cyfle i'r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau	0	0	15
4. Dylai'r Pŵl ofyn am isafswm datgeliad gan ei reolwyr buddsoddi ar y risgiau ESG	1	0	14
5. Dylai'r Pŵl ddatgelu ei weithgarwch buddsoddi cyfrifol i bob rhanddeiliad.	0	3	12
6. Gallai strategaeth fuddsoddi sy'n integreiddio ystyriaeth o ffactorau ESG yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol danberfformio ar strategaethau cyffredin (tracio mynegai) eraill yn y byrdymor ac felly dylid mabwysiadu gorwel buddsoddi sy'n ddigon hir wrth farnu llwyddiant strategaethau o'r fath.	1	2	12
7. Gall rheolwyr buddsoddi arddangos eu hymrwymiad i fuddsoddi cyfrifol drwy fod yn llofnodwyr i'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a'r UK Stewardship Code.	0	2	13
8. Mae'n dderbyniol i reolwyr buddsoddi'r Cronfeydd fabwysiadu safbwyntiau gwahanol wrth bleidleisio ar yr un datrysiad.	3	8	4
9. Dylai'r Pŵl roi blaenoriaeth i ddarparu mynediad at reolwyr arbenigol a mandadau ESG.	3	8	4
10. Mae'n briodol i'r Pŵl gyfyngu mynediad at asedau yr ystyrir fel rhai sy'n cael effaith andwyol ar gynaliadwyedd amgylcheddol neu gymdeithasol hirdymor.	4	4	7
11. Dylai'r Pŵl ddarparu mynediad at strategaethau buddsoddi sy'n cyflwyno deilliant cymdeithasol neu amgylcheddol cadarnhaol, hyd yn oed os yw hynny'n golygu cyflawni enillion is.	4	7	4
12. Y Pŵl, yn hytrach na'r rheolwyr, ddylai fod yn gyfrifol am fframio a gweithredu polisi pleidleisio addas mewn perthynas â chyfranddaliadau sydd yn ei berchnogaeth ar ran y Cronfeydd.	0	4	11
13. Newid hinsawdd yw'r risg ariannol hirdymor mwyaf arwyddocaol i ddeilliannau'r Gronfa.	2	8	5
14. Byddai'n briodol i'r Pŵl orfodi polisi eithrio cytûn ar draws ei holl strategaethau gwaelodol.	5	4	6
15. Dylai'r Pŵl arddangos arweiniad i gynorthwyo Cronfeydd i fynd i'r afael â'r risgiau posib sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd	2	3	10

Sgoriau'r holiadur (2)

	Anghytuno	Niwtral	Cytuno
16. O ran buddsoddi cyfrifol, yr unig ofyniad ar y Pŵl yw sicrhau ei fod ef, a'r cronfeydd sy'n aelodau ohono, yn bodloni'r gofynion rheoleiddio isaf.	9	5	1
17. Erys y rhwymedigaeth bennaf i ymdrin â materion buddsoddi cyfrifol o fewn y Pŵl â Link a Russell.	7	6	2
18. Dros y tymor hwy, disgwylir i gwmnïau sy'n arddangos arferion busnes mwy cynaliadwy berfformio'n well na chwmnïau sy'n anwybyddu materion cynaliadwyedd	0	2	13
19. Mae ymgysylltiad cwmnïau ar risgiau ESG penodol (megis newid hinsawdd a chyflog swyddogion gweithredol), yn hytrach na dadfuddsoddiad, yn ffordd fwy effeithiol o greu newid a chefnogi gwerth rhanddeiliaid	0	3	12
20. Bydd cydweithredu ag eraill (megis IIGCC neu Climate Action 100+) ar faterion sy'n ymwneud â ESG yn cael effaith gadarnhaol ar y Pŵl a'i aelodau	0	4	11
21. Mae'r rheolwyr mewn gwell sefyllfa i ystyried ffactorau ESG mewn penderfyniadau buddsoddi, yn hytrach na'r Pŵl neu'r Cronfeydd sy'n aelodau ohono.	2	8	5
22. Dylai'r Pŵl a'i ddarparwyr gwasanaeth fedru darparu arbenigedd ac arweiniad i'r Cronfeydd ar faterion buddsoddi cyfrifol.	2	3	10
23. Mae rhwymedigaeth glir ar y Pŵl i sicrhau bod pob rheolwr buddsoddi yn integreiddio'r dasg o ystyried materion ESG sy'n berthnasol i gyllid yn eu prosesau buddsoddi.	0	1	14
24. Dylid ystyried cydweithio â phŵliau CPLIL eraill, gan gynnwys cydweithio drwy LAPFF, ar faterion buddsoddi cyfrifol cyn ffurfiau eraill o gydweithio.	1	7	7
25. Dylai'r Pŵl arddangos arferion gorau ar yr holl faterion buddsoddi cyfrifol.	1	0	14
26. Dylid (ail)asesu cymwysterau rheolwyr buddsoddi bob blwyddyn, fan leiaf.	0	4	11
27. Mae gan Link a Russell rwymedigaeth glir i gyfleu unrhyw ddiweddariadau ar faterion buddsoddi cyfrifol i'r Pŵl a'r Cronfeydd sy'n aelodau ohono.	0	0	15
28. Dylai cronfeydd nodi eu gofynion adrodd o ran materion buddsoddi cyfrifol yn glir, a dylai'r Pŵl gymryd yr holl gamau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion hynny.	0	2	13
29. Y Pwyllgor fydd yn bennaf gyfrifol am sicrhau y glynir at bolisïau buddsoddi cyfrifol y Pŵl.	0	1	14

Atodiad 2

Safbwyntiau Presennol y Cronfeydd

Crynodeb o safbwyntiau'r Cronfeydd

Cronfa	Polisi BC Pwrpasol	Aelod LAPFF	Llofnodwr PRI	Llofnodwr UK SC (3)	Credoau Buddsoddi (4)	Pleidleisio	Polisi clir ar y risg hinsawdd
Cronfa 1	✓	✓	✗	✗	✓	Dirprwywyd i reolwyr	✓
Cronfa 2	✗	✓	✗	✗	Nodyn 4	Dirprwywyd i reolwyr	✗
Cronfa 3	Nodyn 1	✓	✗	✗	✓	Dirprwywyd i reolwyr	✗
Cronfa 4	✗	✓	✗	✗	✓	Dirprwywyd i reolwyr	✗
Cronfa 5	✓	✓	✗	✓	✓	Dirprwywyd i reolwyr	✗
Cronfa 6	Nodyn 2	✓	✗	✗	Nodyn 4	Dirprwywyd i reolwyr	✓
Cronfa 7	✗	✓	✗	✗	Nodyn 4	Dirprwywyd i reolwyr	✗
Cronfa 8	Nodyn 1	✓	✗	✓	✓	Dirprwywyd i reolwyr	✗

1. Polisi yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. 2. Mae gan y Gronfa ddatganiad BC ar Newid Hinsawdd. 3. Mae pob cronfa'n cefnogi egwyddorion y codau ac yn disgwyl i'w rheolwyr fod yn llofnodwyr. 4. Efallai bod rhai Cronfeydd wedi cofnodi credoau buddsoddi ond nid yw'r rhain wedi cael eu cyhoeddi.

Diolch

Mae'r cyflwyniad PowerPoint hwn yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol o eiddo Hymans Robertson LLP (HR). HR yw perchennog neu drwyddedai yr holl hawliau eiddo deallusol yn y cyflwyniad PowerPoint. Cedwir pob hawl o'r fath. Mae'r deunydd a'r siartiau sydd wedi'u cynnwys yma yn cael eu darparu fel gwybodaeth gefndir er dibenion darluniadol yn unig. Nid yw'r cyflwyniad PowerPoint hwn yn ddadansoddiad pendant o'r pynciau a drafodir ac ni ddylid ei ystyried fel rhywbeth yn lle cyngor arbenigol mewn perthynas â'r materion y rhoddwyd sylw iddynt. Nid cyngor yw hwn ac ni ddylid dibynnu arno. Ni ddylid rhyddhau'r cyflwyniad PowerPoint hwn, na'i ddatgelu fel arall, i unrhyw drydydd parti heb gael caniatâd gan HR ymlaen llaw. Nid yw HR yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gamgymeriadau neu ddibyniaeth ar unrhyw ddatganiad neu farn yn hwn.

Hymans Robertson LLP is authorised and regulated
by the Financial Conduct Authority

HYMANS ROBERTSON